

Darn y Golygydd

Croeso i drydydd rhifyn *Yr Ieithydd Bangor*, cylchgrawn pob deufis i'r rheiny sydd â diddordeb mewn ieithyddiaeth a'r iaith Saesneg. Ymhob rhifyn byddwn yn trafod ac yn archwilio nifer o agweddau ar Ieithyddiaeth a'r iaith Saesneg, yn edrych ar ddarnau o ymchwil sydd yn cael eu cynnal o'n cwrmpas ac yn eich hysbysu am yr hyn sy'n digwydd yn yr adran. Byddwn hefyd yn cyhoeddi adolygiadau o "ieithyddiaeth boblogaidd", fel adolygiadau cyfryngau, posau a chroeseiriau.

Yn y rhifyn hwn, byddwn yn trafod y ddadl ynglŷn â defnydd o'r collnod mewn enwau cwmnïau fel Waterstones (neu Waterstone's fel yr oedd yn arfer cael ei adnabod) ac mae yna erthygl am yr hyn a fu ar Ddiwrnod David Crystal.

Rydym yn gobeithio y gwnewch chi fwynhau'r rhifyn ac y byddwch yn cael yr hyn sydd ynddo o ddefnydd. Os oes gennych unrhyw sylwadau, ceisiadau, beirniadaeth neu gynnig help yna anfonwch e-bost at Kathryn Barlow (y golygydd) ar linguistics@undeb.bangor.ac.uk.

Kathryn Barlow

Diwrnod David Crystal

Roedd hi'r amser honno o'r flwyddyn eto, amser yr hir ddisgwyliedig a'r eithriadol boblogaidd 'Diwrnod David Crystal'. Diwrnod y mae llawer yn ei ddatlu ac sy'n dod yn gynyddol boblogaidd ym Mhrifysgol Bangor; cymerodd le ar ddydd Mercher 15 Chwefror pan gafodd staff, myfyrwyr ac aelodau o'r cyhoedd y cyfle i glywed yr Athro David Crystal yn traddodi dwy ddarlith ddiddorol iawn. Casglodd y dyrfa o

gefnogwyr DC ym Mhrif Ddarlithfa'r Celfyddydau, gyda nifer fawr o bobl yno ar gyfer y ddwy ddarlith.

Roedd y ddarlith gyntaf, 'By Hook or by Crook: A journey in search of English' yn ddarlith gyfareddol wedi'i seilio ar ei lyfr a gyhoeddwyd yn 2007 (ac mae gan Lyfrgell BLS gopi os oes genych ddiddordeb yn ei ddarllen!). Roedd y ddarlith yn driniaeth ragorol o hanes yr iaith Saesneg ym Mhrydain a thramor. Prif bwnc y drafodaeth oedd acenion a thafodieithoedd, gyda nifer yn cael eu dynwared yn drawiadol gan DC ac fe wnaeth i'r gynulleidfa rowlio chwerthin gyda'i straeon doniol am ei deithiau a'i brofiadau. Cafwyd triniaeth drawiadol ar en-



Myfyrwyr Ieithyddiaeth 3ydd Flwyddyn yn cymysgu gyda David Crystal

wau lleoedd ynghyd a tharddiad enwau nifer o bentrefi a threfi.

Roedd yr ail ddarlith yn canolbwyntio ar iaith Shakespeare ac roedd yn bennaf yn seiliedig ar lyfr Crystal 'Think on my Words' a gyhoeddwyd yn 2008. Rhoddodd ddisgrifiad hynod o iaith y llenor a thrafodwyd chwedlau poblogaidd ynglŷn ag iaith Shakespeare, gyda'r prif bwyslais ar y ffordd y mae golygwyr wedi ychwanegu safbwynt modern i'r darnau enwog o lenyddiaeth rydym yn gyfarwydd â nhw heddiw. Siaradodd David Crystal am y gwaith roedd wedi'i wneud gyda Theatr y Glôb i helpu actorion feistrolï ynganiad gwreiddiol dramâu Shakespeare ar gyfer perfformiadau diweddar. Rhoddodd DC gyngor llwyddiannus i atgynhyrchu ynganiad Shakespearaidd ar gyfer cynhyrchiad llwyfan o 'Romeo and Juliet' yn 2004.

Yn dilyn y ddarlithiau treuliodd DC amser yn arwyddo nifer o lyfrau ar gyfer myfyrwyr ieithyddiaeth brwd. Ymunodd staff a myfyrwyr gyda David a'i wraig ym Mar Teras newydd Prif Adeilad y Celfyddydau; roedd yn gyfle gwych i gymdeithasu dros wydraid o win (neu ddau!).

Byrlymodd y trafod deallusol ac addysgiadol wrth i bawb gymysgu â'i gilydd. Roedd yn ddiweddwych i ddiwrnod diddorol ac rydym yn edrych ymlaen at groesawu David Crystal yn ôl flwyddyn nesaf.

Stuart Smith

Wedi'i Golli wrth Gyfieithu

Yn rhifyn diweddaraf cylchlythyr y Gymdeithas Ieithyddiaeth aethom am dro bach drwy rai o gilfachau anghyfarwydd yr iaith Saesneg, dan arweiniad y geiriadurwr byd enwog, Ammon Shea. Yn y rhifyn hwn byddwn yn sgimio cerrig dros lecsiconau Ffrangeg, Rwsieg ac Inuit (ymysg eraill) mewn ymdrech i ddod o hyd i eiriau sydd heb gael y pleser o gael eu datgelu eto yn Saesneg (nac yn Gymraeg!)

Yn bersonol, rydw i wrth fy modd gyda'r syniad bod effaith diwyllianol iaith yn dylanwadu'r siaradwr brodorol i amgyffred y byd mewn gwahanol oleuni o'i gymharu â siaradwyr ieithoedd eraill. Rwy'n gweld hyn yn bur amlwg wrth astudio sut mae ieithoedd eraill yn mynegi emosiynau, teimladau neu feddyliau trwy gyfrwng geiriau neu ymadroddion unigol.

Er enghraifft, mae gan y diwylliant Saesneg gymeriad gwahanol iawn i'r un Japaneaidd. Y cyfieithiad llythrennol am eu gair *yoko meshi* yw "pryd o fwyd wedi'i fwyta wysg ei ochr". Yr hyn mae hynny'n ei bortreadu yw'r straen neilltuol a grëir wrth siarad iaith dramor. Ni allaf ddychmygu bod siaradwyr Saesneg brodorol yn teimlo'r straen emosiynol yma i'r fath raddau ei fod yn haeddu ei air ei hun. Neu'n hytrach ni allaf ddychmygu siaradwyr Saesneg brodorol yn teimlo'r straen emosiynol hwn.

Ymadrodd Ffrangeg nad oes ei gyffelyb yn Saesneg yn fy marn i yw *esprit d'escalier*. Ydych chi'n cofio

pan wnaeth y cawr moel hwnnw sarhau eich cudynnau cyrliog hir ac yna hanner awr yn hwyrach, wrth i chi sychu'r dagrau o'ch wyneb, fe wnaethoch chi feddwl am yr ateb perffaith? Dyna'r teimlad. Rydych chi wedi meddwl am yr ymateb perffaith ond does neb o gwmpas i'w glywed. 'C'est parfait, non?'

Rwy'n siŵr y gall fod yn brofiad blinderog iawn aros yn yr oerfel i'ch ffrind gyrraedd. Fuaswn i ddim yn gwybod. Yn amlwg mae hyn wedi achosi gofid i bobl yr Inuit. Mae'r gair *iktsuarpok* yn cael ei ddefnyddio'n benodol ar gyfer hyn. Y teimlad hwnnw o ddisgwyliad sy'n datblygu pan fo'n rhaid i chi roi'ch pen allan o'r iglw dros ar ôl tro i weld os ydy'ch mêt wedi cyrraedd eto ar ei sgi-dw.

Oes gennych chi un o'r bobl hynny yn eich dosbarth sy'n gofyn cwestiynau dibwynt yn ddiben draw? Ydych chi'n un o'r bobl hynny? Ydych chi'n siŵr am hynny? Os ydych chi, yna rydych yr hyn mae'r Rwsiaid yn ei alw'n *pochemuchka*. Mewn gwirionedd, rwy'n siŵr bod gan Saesneg amrywiaeth o enwau am bobl fel hyn.

Wrth wrando ar adleisiau atgofus o'r iaith Saesneg, sisialodd y gair *psithurism* drwy'r dail a nythu yn ogofau fy idiom unigryw bersonol ('idiolect'). Mae dau air wedi cael effaith debyg arnaf ers hynny. Yn y ddau achos mae eu symlrwydd a harddwch wedi swyno'r dychymyg, y gyntaf a'r fwyaf pwerus yn air Twrcaidd. Pan fo'r 'lloer yn ariannu'r lli' liw nos yna'r *gumus-servi* yw'r hyn mae'ch llygaid yn ei weld. Pan fyddwch yn rhedeg eich bys ar hyd yr ôl crwn o leithder a adewir gan wydr oer, yna'r gair Eidalaidd *culacino* rydych chi'n ei batrymu.

Efallai nad yw diwylliannau eraill yn amgyffred bywyd yn wahanol. Efallai nad ydynt yn ddim mwy

barddonol na sylwgar na siaradwyr Saesneg brodorol. Yr hyn sy'n amlwg yw bod geiriau'n bodoli am fod eu siaradwyr yn ffeindio'r angen i'w creu nhw. Efallai bod gan rai siaradwyr fwy o angen ar gyfer gair penodol nag eraill. Rwy'n hoffi meddwl bod pawb yn unigryw ac felly hefyd eu hiaith a'r ffordd y byddant yn dewis ei defnyddio. Mae hynny'n amlwg i mi. Dyna i mi yw nodwedd fwyaf ysbrydoledig ieithyddiaeth.

Ian Butcher

An Ode to the Slips of the Tongue

By Lizzie Blowey

A larynx window
creaking
/ə/.

Inhales breeze-breath of shards
when speaking
/z/.

Glottalic crack in bottle
Stop, R. P. drone
/ʔ/.

Nun o' tha'
glass velar grit
on sills of bone
/k/.

A verbal gush
unlocks lallation
in the gum
/ð/.

Geoffrey Rush,
be kinder
to a frailer /t/-/t/-/tʌŋ/

Dadl Waterstones vs Waterstone's

Fel y bydd llawer ohonoch wedi clywed, ym mis Ionawr penderfynodd y gwerthwyr llyfrau Waterstone's y byddent yn yr oes fodern yn ail frandio fel "Waterstones". Dywedwyd fod y newid yn fwy addas i'w cynulleidfia darged a oedd yn aml yn cael eu drysu wrth chwilio am waterstone's.co.uk. Achosodd hyn ddadl gychwynnol am enw'r siop: byddai Waterstones yn awgrymu bod yr enw yn cyfeir-

rhai o blaid gollwng y collnod ac eraill yn erbyn gan nad oedd yn gwneud unrhyw synnwyr yn ramadegol. Roedd eraill yn cymryd y llwybr canol gan gredu yn yr oes fodern fod yr angen am gollnod yn yr achos hwn yn ddibwynt. Eu dadl oedd, er bod gŵr o'r enw Tim Waterstone yn berchennog ar y cwmni yn y gorffennol, y dyddiau yma nid oedd yn ddim ond enw brand fel Coca Cola. Dywedir bod y cwmni



Waterstones Northallerton, dal i fod gyda collnod

io at Waterstones lluosog, a byddai hynny'n erfyn y cwestiwn beth yw 'waterstone'? A yw'n garreg yn y dŵr neu'n rhywbeth cyfarwydd i ieuenctid y 90au i esblygu eu hoff 'Eevee' yn 'Vaporeon'. Byddai'r enw Waterstone's ar y llaw arall wedi awgrymu fod rhywun o'r enw 'Waterstone' yn berchen ar y cwmni unwaith - rhywbeth y gall golwg sydyn ar Google ei gadarnhau; bellach mae'r cwmni yn nwylo'r biliwnydd Rwsiaidd Alexander Mamut ac ychydig iawn o'i dreftadaeth sy'n cael ei arddel gan y cwmni.

Achosodd y syniad o ollwng y collnod ddadl yn ein darlith ac hefyd yn y cyfarfod wythnosol. Roedd

ei hun yn priodoli'r newid i deimlad o gymuned a chydweithio, gan gynnig bod yr '-s' meddiannol yn awgrymu bod y gadwyn ym mediant unigolyn tra bod yr '-s' lluosog yn awgrymu undod.

Dywedodd John Richards, pennaeth yr 'Apostrophy Protection Society' wrth y Telegraph "Mae'n wallus. Mae'n ramadegol anghywir. Os yw Sainsbury's a McDonald's yn llwyddo i'w gael yn iawn, pam na all Waterstones? Byddech yn gobeithio mai siop lyfrau fyddai'r lle olaf i fod mor ffwrdd â hi gyda'r Saesneg."

Yn yr oes fodern mae'r collnod yn llithro o ddefnydd gan fod systemau cyfrifiadurol yn aml yn

methu â'u deall; bydd peiriannau chwilio yn newid collnodau, fel bylchau, am arwyddion canran. Mae cwmnïau mawr eraill fel McDonald's sydd yn dal ar eu collnod yn gorfod ildio i'r oes ddigidol ac nid oes ganddynt gollnod yn eu URL. Yn eironig datblygiad y cyfryngau digidol sydd yn galluogi newyddion o'r fath i ledaenu ac i fod yn ymddangosiadol mor ddadleuol. Heblaw am drydar dydw i ddim yn meddwl y buaswn i wedi clywed am "broblem y collnod" tan fy narlith 'Grammar and the Mind.'

Gan mai dadl yw'r "-s" meddiannol neu'r "-s" lluosog am fusnes, fel pob gohebydd da, penderfynais y byddai'n syniad i gael golwg ar gyflwr y collnod o amgylch Bangor. Dechreuais fy siwrnai trwy fynd i "Patrick's Irish Bar" a sylwais ar fy nghollnod cyntaf. Sylwais wedyn fod fy mheint yn dweud "Foster's" ac roeddwn wrth fy modd pan sylweddolais fod lager Foster's yn cael ei gynhyrchu gan fragdy Foster's gan awgrymu fod yna Foster unwaith. Yn hwyrach sylweddolais nad oedd gan far Oscars gollnod, pwynt diddorol yn fy siwrnai er i mi fethu â chanfod y rhesymu tu ôl i'r enw.

Penderfynais wedyn y byddai'n syniad cynnal arolwg bach i weld os yw pobl dal i ddefnyddio'r '-s' meddiannol fel rhan o URL; gofynnais i 10 o bobl ysgrifennu sut oeddynt yn meddwl y byddai URL Waterstones a Foster's yn edrych. Yn yr arolwg, er syndod i mi, ysgrifennodd pob un o'r 10 y ddau URL heb gollnod.

Matt Jackson

Ffrind gorau dyn: Sut mae ein perthynas ag anifeiliaid wedi dylanwadu ar ein hiaith

Yn ystod fy nefod foreol o faglu drwy brif straeon newyddion y dydd, daeth i'm sylw bod yr actifyddion hawliau anifeiliaid PETA yn ceisio erlyn SeaWorld ar ran y morfilod danheddog sy'n perfformio iddynt, a hynny ar sail caethwasiaeth, gan hawlio fod gan yr Orcas yr un hawliau sylfaenol â dynion.

Fe wnaeth hyn i mi feddwl - a oes gan anifeiliaid yr un hawliau a chredoau semantaidd â phobl? Fe arweiniodd y drafodaeth am yr Orcas i mi gofio stori newyddion ddiddorol leol ynghylch y terfysgoedd diweddar ym Birmingham. Cafwyd adroddiad bod un o'r ysbeilwyr wedi cael ei gyhuddo o ymosod ar un o gŵn yr heddlu gyda chôn traffig. Arweiniodd y weithred hon o drais i'r terfysgwr gael ei arestio ar y sail ei fod wedi 'ymosod ar heddwas'. Felly'n ddamcaniaethol, yn llygaid y gyfraith, byddai gan gŵn yr heddlu'r un hawl sylfaenol yn erbyn trais â'u 'perchnogion' dynol.

Felly ymhle mae hyn yn gadael yr Orcas? Yn seiliedig ar eu hyfforddiant ac arbenigedd onid yw hi'n deg pennu bod 'perfformwyr' yn ddisgrifiad teg o'r creaduriaid hyn. Felly, ymhle mae rhywun yn tynnu'r llinell ar anifeiliaid yn perfformio swyddogaethau bodau dynol. Ydy milgwn rasio yn athletwyr? Ydy cŵn tywys yn ofalwyr?

Yn fy marn i mae'n fater i'r rheiny sydd agosaf at yr anifeiliaid arbenig hyn. Mae'r rheiny sy'n cadw ceffylau rasio yn amddiffynnol a gofalgwr iawn ohonynt ac mae'r un anwyldeb i'w weld ymhob man pan fo anifeiliaid a phobl yn cydymwneud. Gellir ei weld tu allan i'r byd proffesiynol hefyd pan son-

nir yn aml am anifeiliaid anwes fel 'rhan o'r teulu'. Mae'n amlwg bod yr ieithwedd a ddefnyddiwn i ddisgrifio ein hanifeiliaid yn ein hiaith ddethol, fel 'noble steed' er enghraifft, yn adlewyrchu ein parchtuag atynt.

Harry Jansen

Sioe Ffasiwn RAG

Ar Ddydd Iau 15 Mawrth yn Neuadd Pritchard Jones, bydd RAG Bangor yn cynnal sioe ffasiwn arall i godi arian i'w dwy elusen genedlaethol a'u dwy elusen leol. Eleni eu helusennau dethol yw: Fare Share Gogledd Cymru, Shine Cymru, NRAS a Papyrus UK.

Mae sioe ffasiwn eleni yn anelu at fod hyd yn oed yn fwy a gwell na'r



llynedd gyda'r ffasiynau diweddaraf wedi eu cyfrannu'n hael gan nifer o siopau'r stryd fawr; bydd gwallt y modelau'n cael ei steilio gan siop trin gwallt Clayton's a bydd eu colur yn cael ei baratoi gan neb llai na Chymdeithas Drama Saesneg (BEDS) y Brifysgol. Bydd Miss Cymru hefyd yn gwneud ymddangosiad a bydd adloniant gan y Gymdeithas Actio Byrffyr a'r Gymdeithas Ddawns. Caiff bwffe ei gynnwys yn y pris a bydd bar yno. Bydd y drysau'n agor am 7:30pm ac ni fydd myfyrwyr Iaith Saesneg / Ieithyddiaeth eisiau colli'r diweddglo.

Mae'r tocynnau'n £5 o flaen llaw

neu'n £6 ar y drws (nifer cyfyngedig o docynnau ar gael) a gellir eu prynu o dderbynfa Undeb y Myfyrwyr, Siop y Ffriddoedd neu gofynnwch i aelod o'r pwyllgor ar rag.comm@undeb.bangor.ac.uk, neu anfonwch neges destun/rhowch alwad i 07901811636 i gael gafael ar Emma Wilson (Myfyriwr Ieithyddiaeth ail flwyddyn)

Emma Wilson

Y Diweddaraf gan y CIB

Mae Cymdeithas Ieithyddiaeth Bangor yn y broses o ddiweddarau ein silffoedd llyfrau yn ein llyfrgell. Rydym ar hyn o bryd yn ymchwilio i'r llyfrau sydd eu hangen ar gyfer pob blwyddyn a byddai eich barn yn cael ei werthfawrogi'n fawr. Felly os oes gennych unrhyw awgrymiadau ar gyfer llyfrau rydych yn meddwl y byddai'n werth eu cael yn y llyfrgell anfonwch e-bost atom - linguistics@undeb.bangor.ac.uk.

Beth yw eich barn chi?

Hoffem wybod faint o bobl a fyddai â diddordeb mewn taith i Cork, Iwerddon yn ystod y flwyddyn academaidd nesaf (o bosib ar ddechrau Wythnos Ddarllen mis Tachwedd).

Byddai'r daith yn cynnwys 3 noson mewn hostel ieuencid, bws a fferi i Cork a byddai gweddill y gwyliau i fyny i ni ei lenwi â diddanwch o'n dewis! Byddai'r gost oddeutu £160 ond dyna'r unig ddyfynbris i ni dderbyn hyd yma. Byddai'n wyliau bach gwyh ac fe hoffem wybod pwy fyddai â diddordeb.

Digwyddiadau Cymdeithasol

Gan fod gwyliau'r Pasg yn prysur agosáu, mae'r Gymdeithas Ieithyddiaeth wedi penderfynu cynnal 'Cwis Tafarn Ieithyddol' cyn i ni orffen. Rydym wedi penderfynu y bydd yr enillion yn mynd at elusen

o'r enw 'Afasic England' sy'n elusen sy'n anelu codi ymwybyddiaeth a chreu gwasanaethau a darpariaeth well i blant a phobl ifanc sydd â nam ar eu lleferydd. Bydd manylion terfynol y Cwis Dafarn yn cael eu cyhoeddi'n fuan.

Gwibdaith i fyny'r Wyddfa, mae hwn wedi ei fwriadu ar gyfer penwythnos 28/29 Ebrill 2012 ar ôl gwyliau'r Pasg (os yw'r tywydd yn caniatáu!) a bydd yn gyfle gwych i fwynhau'r golygfeydd hardd sydd ar ein rhiniog ac yn egwyl ddelfrydol o adolygu ac aseiniadau. Yn dibynnu ar y niferoedd rydym yn meddwl rhannu'n ddau grŵp: Trên a Cherdded. Os hoffech ddal y trên bydd yn costio £17 yno ac yn ôl. (Rydym angen o leiaf 15 yn y grŵp i'w gael am y pris hwn!) Os hoffech ddod, dywedwch wrthym ar Facebook neu anfonwch e-bost i gadarnhau eich bod am ddod.

Pryd Haf y Gymdeithas fydd y ffarwel olaf i'n hieithyddion trydedd flwyddyn, a bydd y golled ar eu hôl yn fawr. Rydym yn bwriadu ei gynnal yn y Ganolfan Rheolaeth ar ryw bwynt yn ystod yr wythnos sy'n dechrau 21 Mai. Bydd manylion i ddilyn yn fuan.

Cewch y newyddion a'r wybodaeth ddiweddaraf ar ein grŵp Facebook [facebook.com/bangorlinguists](https://www.facebook.com/bangorlinguists).

Edrychwn ymlaen at eich gweld yn fuan !

Stuart Smith

Yr Helfa Eiriau Ieithyddiaeth

Ar gyfer ieithyddion sy'n cwisio rydym wedi meddwl am rywbeth sydd ychydig yn wahanol i'ch croesair arferol. Felly dyma'r Helfa Eiriau Ieithyddiaeth gyntaf un!

Mae yna 20 o dermau'r pwnc wedi'u cuddio yn y blwch isod. Anfonwch eich rhestr o eiriau er-

byn 15 Ebrill at linguistics@un-deb.bangor.ac.uk i ennill gwobr. Y person a fydd yn canfod y nifer fwyaf o'r 20 o eiriau a fydd yn ennill!

(Caiff yr atebion a'r enillwyr eu cyhoeddi yn y rhifyn nesaf.)

W	B	L	A	U	G	N	I	L	I	B	N	D	V	K	Z	E	K
W	K	L	E	R	O	H	P	A	T	E	M	X	E	E	T	Z	K
E	B	X	A	T	N	Y	S	M	S	A	N	X	Q	A	H	H	U
Z	J	W	T	G	O	G	G	Y	C	O	P	B	I	B	H	T	P
E	Y	U	O	M	R	J	L	Q	C	R	P	C	A	T	U	H	J
M	Z	X	G	A	T	L	U	I	I	L	H	I	M	D	Z	E	N
E	S	P	M	D	A	I	X	M	N	O	I	T	I	N	G	O	C
H	A	M	D	B	S	E	I	R	M	W	E	Z	X	P	L	R	Y
P	A	M	L	I	L	N	Y	S	Y	W	V	Q	R	M	C	Y	T
R	V	E	T	A	G	Y	K	M	S	N	F	A	B	I	X	R	J
O	T	I	R	A	I	Y	Y	E	N	L	G	B	N	N	X	H	Z
M	O	V	P	D	O	N	G	H	A	M	P	I	G	D	Z	W	E
N	U	O	E	D	O	M	L	N	A	P	H	O	N	E	M	E	L
R	O	Q	R	T	E	M	G	T	X	Z	P	W	O	B	U	W	W
W	Z	V	E	N	K	U	I	E	S	Z	P	M	F	R	B	U	D
H	A	M	T	W	A	C	E	M	E	X	E	L	N	A	P	H	M
O	U	F	I	G	S	G	B	I	T	J	P	V	J	I	C	J	S
Z	J	M	E	M	U	T	R	U	D	G	I	L	L	N	E	A	G

Yr atebion i groesair y rhifyn diwethaf:

Ar Draws	1 Polysemy, 4 Trope, 6 Image Schemas, 9 Monosemy, 10 Mental Spaces, 11 Dictionary, 12 Passive Bilingual
I Lawer	1 Plosives, 2 Conceptual Metaphor, 3 Aperiodic Waves, 5 Metonymy, 7 Encyclopaedic, 8 Code Switching

Digwyddiadau i ddod mis Mawrth a mis Ebrill

13. Mawrth Cyfres Ddarlithiau CIB: Agweddau at Iaith, Ystafell 325, 4pm
Dr. Enlli Thomas (Prifysgol Bangor): Acquiring complex structures under conditions of minimal exposure: Bilingual acquisition of plural morphology in Welsh.
19. Mawrth Cyfres Seminarau'r Ganolfan Ddwyieithrwydd, Ystafell Adnoddau, 4pm
Dr. Ros Temple (Prifysgol Rhydychen)
20. Mawrth Cyfres Ddarlithiau CIB: Agweddau at Iaith, Ystafell 325, 4pm
Yr Athro Ineke Mennen (Prifysgol Bangor): Intonational Foreign Accent.
21. Mawrth Cylch Ieithyddiaeth, Ystafell Seminar Ieithyddiaeth, 4pm
Dr. Marija Omazic (Prifysgol Osijek): Phraseology and Cognitive Linguistics: Mechanisms and constraints on idiom creation and modification.
26. Mawrth Cyfres Seminarau'r Ganolfan Ddwyieithrwydd, Ystafell Adnoddau, 4pm
Yr Athro Marilyn Martin-Jones (Prifysgol Birmingham)
2. Ebrill Cyfres Seminarau'r Ganolfan Ddwyieithrwydd, Ystafell Adnoddau, 4pm
Dr. Kleanthes Grohmann (Prifysgol Cyprus)
16. Ebrill Cyfres Seminarau'r Ganolfan Ddwyieithrwydd, Ystafell Adnoddau, 4pm
Vicky Chondrogianni (Prifysgol Bangor)
18. Ebrill Cylch Ieithyddiaeth, Ystafell Seminar Ieithyddiaeth, 4pm
Dr. Patrick Rebuschat (Prifysgol Bangor): Implicit and explicit learning of language.
21. Ebrill Cylch Ieithyddiaeth, Ystafell Seminar Ieithyddiaeth, 4pm
Dr. Cristina Dye (Prifysgol Castell-meirch): Clausal complexity and the production of verb inflection in bilingual vs. monolingual toddlers.
23. Ebrill Cyfres Seminarau'r Ganolfan Ddwyieithrwydd, Ystafell Adnoddau, 4pm
Taoli Zhang (Prifysgol Nottingham)
24. Ebrill Cyfres Ddarlithiau CIB: Agweddau at Iaith, Ystafell 325, 4pm
Dr. John Olsson (The Forensic Linguistics Institute): An Overview of Forensic Linguistics.
30. Ebrill Cyfres Seminarau'r Ganolfan Ddwyieithrwydd, Ystafell Adnoddau, 4pm
Yr Athro Viv Edwards (Prifysgol Reading)

Cadwch mewn cysylltiad

Mae gennym wefan newydd:
<http://bangorlinguists.org>.

Rydym hefyd yn awr ar Facebook
(tudalen newydd!) ac ar Twitter:

<http://on.fb.me/BangorLinguists>.

<http://bit.ly/CIBtweet> (Cymraeg)

<http://bit.ly/BLStweet> (Saesneg)

Mae yna grwpiau blwyddyn ar Facebook, o'r enw "Linguistics & English Language 'XX'", lle mae "XX" yn cyfeirio at y flwyddyn graddio (e.e. '12 ar gyfer myfyrwyr y drydedd flwyddyn eleni). Gwnewch yn siŵr o ymuno!

Cyfranwyr

Prif Olygydd

Kathryn Barlow

Bwrdd Golygyddol

Florian Breit

Matt Jackson

Roseanne Orr

Cyfranwyr

Lizzie Blowey

Ian Butcher

Alun Derwydd-Jones

Harry Jansen

Stuart Smith

Emma Wilson